# ROBERTS, THOMAS (bu farw c. 1775), Bedyddiwr cyntaf ym Môn

**Enw:** Thomas Roberts
**Dyddiad marw:** c. 1775
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Bedyddiwr cyntaf ym Môn
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Benjamin George Owens

Y Myfyrian Uchaf oedd ei gartref cyntaf, ond yn Nhrehwfa Fawr gerllaw Rhos-trehwfa ym mhlwyf Cerrig Ceinwen y gorffennodd ei oes. Codwyd ef yn Annibynnwr yn Rhosymeirch, ac yr oedd yn bregethwr cynorthwyol yno, ond yn 1763 (1768 yn ôl Frimston), gyda chymeradwyaeth yr eglwys, fe'i cymhellwyd gan David Jones, Wrecsam, i ddod ato i'w fedyddio ganddo, a daeth yn aelod yno, er ei fod yn dal i fyw ym Môn. Bu farw tua 1775, heb weld bedyddio neb arall o'r sir, ac fe'i claddwyd yn Rhosymeirch. Y mae Spinther yn priodoli iddo lyfryn o'r enw *Traethawd am Enaid ac Ysprydd yn ôl yr Ysgrythyr* a gyhoeddwyd yn 1785.

## Awdur

**Benjamin George Owens**

## Ffynonellau


*NLW MS* 7123 ('Hanes Bedyddwyr Cynnar Môn')

*Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778), 592

*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, iii, 203

Frimston, *Ebenezer Sef Hanes Eglwys Fedyddiedig Llangefni, o'i chychwyniad yn 1779 hyd 1897 (118 mlynedd), yn nghyda hanes ei gweinidogion, a'i chymanfaoedd*, 9


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804800


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu